# TGAU Cymraeg Iaith Uned 2

## Disgrifio, Naratif ac Esbonio

# Bechgyn a Merched

# Darnau Darllen

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**


**UNED 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

**Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**DARN DARLLEN 1**



**DARN DARLLEN 2**

Canlyniadau Cymru 2013
Crynodeb o ganlyniadau TGAU gan y Cyd-Gyngor Cymwysterau

| Pwnc | % Bechgyn gradd C+ | % Merched gradd C+ |
|---|---|---|
| **Bywydeg** | 89.8 | 91.2 |
| **Astudiaethau Busnes** | 64.0 | 68.0 |
| **Cemeg** | 90.9 | 92.1 |
| **Ffiseg** | 92.4 | 91.6 |
| **Drama** | 68.1 | 77.0 |
| **Saesneg** | 49.5 | 66.9 |
| **Llenyddiaeth Saesneg** | 67.2 | 80.8 |
| **Daearyddiaeth** | 64.4 | 71.4 |
| **Hanes** | 65.3 | 73.9 |
| **Mathemateg** | 51.0 | 50.1 |
| **Cerddoriaeth** | 79.4 | 85.3 |
| **Addysg Gorfforol** | 74.6 | 77.3 |
| **Cymraeg** | 63.4 | 81.2 |
| **Llenyddiaeth Gymraeg** | 65.6 | 82.1 |
| **Technoleg Gwybodaeth** | 73.7 | 82.1 |

**DARN DARLLEN 3**

http://www.bbc.co.uk/cymrufyw

BBC

**Cymru** Fyw

Hafan Cylchgrawn Gwleidyddiaeth

# Anaddas i blant?

23 Mai 2014



Mae angen osgoi stereoteipio mewn llyfrau plant meddai Bethan Gwanas.

**Gan fod Gŵyl y Gelli yn cael ei chynnal dros y dyddiau nesaf, mae BBC Cymru Fyw wedi gofyn i un o'n hawduron plant amlycaf oes yna themâu i'w hosgoi wrth ysgrifennu ar gyfer darllenwyr ifanc?**

Yn ôl Bethan Gwanas, awdures ac enillydd cyntaf Gwobr Goffa T Llew Jones y llynedd, nid yw "cadw plant mewn gwlân cotwm yn gwneud unrhyw les."

"Mi fydda i'n gwneud pwynt o osgoi 'sgrifennu am dywysogesau pinc ar gyfer merched, a cheir a gynau ar gyfer bechgyn. Mae fy merched i yn anturus a chlyfar, yn chwarae pêl-droed, yn gallu trin bwa a saeth a dringo coed. Mae'r bechgyn yn amrywio o un llinyn-trônsaidd sy'n datblygu i fod yn ddringwr da, i un sy'n troi'n ddafad pan fydd hi'n nosi.

"Fy newis i oedd osgoi stereoteipio, nid cais gan unrhyw un i fod yn 'wleidyddol gywir'.

"Yr unig themâu fydda i'n eu hosgoi yw cyffuriau, gan fod plant a phobl ifanc wedi cael llond bol o'r pwnc hwnnw - a fampirod."

**DARN DARLLEN 4**

Detholiad o nofel Bethan Gwanas, *Ceri Grafu*.

Ceri ydw i, Ceri Gruffydd, ond mae pawb yn ‘y ngalw i’n Ceri Grafu. Ha ha. Doniol iawn. Nacdi ddim. Dwi’m yn meddwl ei fod o’n ddoniol o gwbwl. Roedd o’n iawn y tro cynta – jôc fach ar iard yr ysgol – ond pan nath yr enw sticio, es i’n bananas. Dyna pam nath o sticio mae’n siŵr.

Unwaith mae pobl yn gweld bod rwbath yn dy wylltio di, maen nhw isio dy wylltio di fwy tydyn? A dwi’n gwylltio’n hawdd. Yn enwedig pan mae crinc fel Jason Jones yn tynnu arna i. Mae o’n meddwl ei fod o mor ofnadwy o glyfar. Dydy o ddim. Mae o’n ddwl fel postyn yn y gwersi, ond eto mae o’n cofio llwyth o jôcs, ac mae o’n gallu bod reit ffraeth. Ond mae Jason dal yn hen grinc. Fo a phob hogyn arall ym mlwyddyn 7. Pam? Achos dydyn nhw byth yn gadael i mi chwarae pêl-droed efo nhw, dyna pam. Maen nhw’n deud mai gêm i hogia ydy pêl-droed, ac y dylwn i sticio at *hopscotch.*

Hy! Dwi’n well na run ohonyn nhw, ac maen nhw’n gwbod hynny! A dwi’n meddwl mai dyna pam wnân nhw’m gadael i mi chwarae, rhag ofn y bydda i’n well na nhw! Babis.

Dydy o’m yn deg. Y cwbwl dwi isio’i neud ydy chwarae pêl-droed a dringo coed, ond mae Mam yn rhoi llond pen i mi bob tro dwi’n dringo coeden, a dydy’r hogia ddim yn gadael i mi chwarae pêl-droed. Tase na ddigon o ferched yr un fath â fi isio chwarae pêl-droed yn yr ysgol, mi fyswn i’n dechrau tîm genod, ond does na’m chwarter digon. Maen nhw i gyd yn poeni gormod am gleisio’u coesau neu am rwygo’i gwinedd. Pathetic, ynde?

Mae Mam yn deud mai nhw sy’n iawn ac mai fel’na dylwn inna fod. Mi nath hi drio’n galed i ngwneud i fel’na, yn fy ngwisgo i mewn pinc, yn clymu ngwallt i mewn bobls fflyffi ac yn fy stwffio i mewn ffrogia – nes ro’n i’n ddigon hen i wrthod. Roedd hi wedi cael llond bol erbyn hynny, beth bynnag. Dydy coesau sy’n gleisiau a sgriffiadau i gyd ddim yn edrych yn neis efo ffrog. Ro’n i gymaint hapusach wedyn. Mae trio chwarae pêl-droed mewn sgert yn boen, heb sôn am ddringo coed. Felly, unwaith ges i lonydd i wisgo a gwneud be ro’n i isio, r’on i’n iawn.

**DARN DARLLEN 5**

www.bbc.co.uk

BBC

**Newyddion**

Hafan Y Deyrnas Unedig Y Byd Gwleidyddiaeth Technoleg Addysg Iechyd


# A yw'r teganau y mae plant yn eu dewis yn dylanwadu ar eu dewis o yrfa?

**Mae gweinidog yn y Llywodraeth yn hawlio bod teganau sydd wedi eu targedu'n benodol at ferched yn gwneud niwed i'w cyfleon yn y gweithle. Ond i ba raddau mae'r teganau y mae plant yn chwarae â nhw yn effeithio ar eu dyfodol yn y farchnad lafur?**

Mae gan bawb atgofion melys o deganau roedden nhw'n chwarae â nhw pan oedden nhw'n blant, yn flociau a threnau neu dŷ dol a llestri gwneud te. Ni wnaeth hyn, o reidrwydd, arwain at blant yn bod yn adeiladwyr a gyrrwyr trenau neu'n lanhawyr a gweinyddesau mewn caffi.

Serch hynny, rhybuddiodd y gweinidog addysg yn ddiweddar y gallai teganau plant effeithio ar eu gyrfa. Dywedodd y gallai teganau merched eu harwain i ffwrdd oddi wrth lwybr gwyddoniaeth a mathemateg ac anogodd rieni i brynu Lego i'w merched er mwyn ennyn diddordeb mewn peirianneg.

Mae'r farchnad lafur wedi newid yn aruthrol dros y degawdau diwethaf ond mae gwahaniaeth mawr yn parhau mewn ambell broffesiwn. Mae dros 80% y gweithwyr ym maes gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg yn ddynion tra mae 82% y gweithwyr yn y gwasanaethau gofal a hamdden yn ferched.



**DARN DARLLEN 6**

| |
|---|
| www.faw.co.uk |

# Dyfarnwyr Benywaidd yn Creu Hanes



Gwelwyd pennod newydd yn hanes Cymdeithas Bêl-droed Cymru ddydd Sul wrth i rownd derfynol genedlaethol Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) gael ei rheoli gan bedair menyw am y tro cyntaf erioed, a hynny wrth i Ferched Dinas Caerdydd herio Mardy Tigers yn Ffynnon Taf.

Roedd Maria Pasco o Wrecsam yn dyfarnu a Rebecca Thomas a Ceri Louse Williams yn Ddyfarnwyr Cynorthwyol. Judith Eis, o Lanrhaeadr ym Mochnant, oedd y pedwerydd swyddog.

Meddai rheolwr dyfarnwyr CBDC, Rodger Gifford: "Cafodd y dyfarnwyr hyn eu dewis am eu gallu. Mae pob un wedi dyfarnu yn rheolaidd yn Uwch-gynghrair newydd y Merched yng Nghymru ac o ganlyniad i gryfder eu perfformiad, cawsant eu penodi.

"Y gobaith yw y bydd cydnabyddiaeth genedlaethol o'r fath yn annog mwy o ferched i gamu i mewn i'r byd dyfarnu, yn arbennig wrth i Bencampwriaeth Merched Dan 19 UEFA ddod i Gymru ym mis Awst gyda'r timau gorau ym myd y bêl i ferched yn cystadlu i fod yn bencampwyr Ewrop.

"Bydd pob un o'r gemau hyn yn cael ei rheoli gan ddyfarnwyr benywaidd, y gorau sydd gan Ewrop i'w gynnig, ac mae'n siom i mi ac i Adran Pêl-droed Merched y Gymdeithas nad oes gan Gymru unrhyw ddyfarnwyr sydd â digon o brofiad i gymryd rhan mewn twrnamaint o'r fath statws."

"Yn y byd delfrydol, byddai pob gêm yn Uwch-gynghrair Merched Cymru yn cael ei rheoli gan ddyfarnwyr benywaidd, ond rydym ni'n bell o wireddu'r uchelgais hwnnw. Fodd bynnag, rydym ni wrthi'n trefnu seminar dyfarnwyr ar gyfer merched yn hwyrach eleni ar y cyd ag ymgyrch recriwtio a fydd, gobeithio, yn sicrhau mwy o ymgeiswyr.

Mae cyfleoedd i ddyfarnwyr benywaidd bellach gymryd rhan yng ngemau pêl-droed cystadleuol UEFA a FIFA i ferched, felly os oes gan unrhyw ferch ddiddordeb mewn dyfarnu, byddai croeso mawr iddi gysylltu i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth.

Byddai'r rheiny sy'n dewis troedio'r llwybr dyfarnu yn cael pob cefnogaeth ac anogaeth o dan ein cynlluniau datblygu ardal.

**I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost yma neu ffoniwch 07786 010344.**

# Papur Enghreifftiol

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

**Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**2awr**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Bechgyn a Merched'.  Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
Defnydd dyddiol o gyfryngau cymdeithasol

A1. Beth yw'r ganran o ferched sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol? [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

**Darn Darllen 2**
Canlyniadau Cymru 2013

A2. Beth yw'r ddau bwnc lle mae canlyniadau bechgyn yn well na merched?
Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

| | |
|---|---|
| Addysg Gorfforol a Chemeg | ☐ |
| Cymraeg a Hanes | ☐ |
| Ffiseg a Mathemateg | ☐ |
| Technoleg Gwybodaeth a Saesneg | ☐ |

**Darn Darllen 3**
Anaddas i blant?

A3. Pa wobr enillodd Bethan Gwanas y llynedd? [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

A4. Nodwch a yw'r datganiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [2]

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae Bethan Gwanas yn credu mewn stereoteipio bechgyn a merched. | | |
| Tywysogesau yw mwyafrif y merched yn llyfrau Bethan Gwanas. | | |
| Mae Bethan Gwanas wedi ysgrifennu am fachgen sy'n troi'n anifail yn y nos. | | |
| Roedd pwysau ar Bethan Gwanas i beidio â stereoteipio yn ei nofelau. | | |

A5. Tanlinellwch yr idiom yn y dyfyniad a ganlyn sy'n dangos nad yw plant a phobl ifanc eisiau darllen mwy am gyffuriau a fampirod. [1]

“Mae fy merched i yn anturus a chlyfar, yn chwarae pêl-droed, yn gallu trin bwa a saeth a dringo coed. Mae'r bechgyn yn amrywio o un llinyn-trônsaidd sy'n datblygu i fod yn ddringwr da, i un sy'n troi'n ddafad pan fydd hi'n nosi.

"Yr unig themâu fydda i'n eu hosgoi yw cyffuriau, gan fod plant a phobl ifanc wedi cael llond bol o'r pwnc hwnnw - a fampirod.”

**Darn Darllen 4**
Detholiad o *Ceri Grafu*

A6. Y math o iaith a ddefnyddir yn y detholiad hwn yw:
Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

tafodiaith y de ☐

ffurfiol ☐

llafar ☐

safonol ☐

A7. Beth rydyn ni'n ei ddysgu am Ceri yn y detholiad hwn? Cofiwch gyfeirio at y darn darllen i gefnogi eich sylwadau. [5]

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

A8. Pam mae Bethan Gwanas wedi ysgrifennu'r nofel yn y person cyntaf yn eich tyb chi ac ydych chi'n meddwl bod hyn yn effeithiol? [3]

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

**Darn Darllen 5**
Newyddion

A9. Esboniwch, yn eich geiriau eich hun, beth yw pryder y gweinidog addysg. [2]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

A10. Ym mha fath o waith y mae’r lleiaf o fwlch rhwng dynion a menywod? [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

A11. Beth yw bwriad yr awdur wrth ysgrifennu’r adroddiad hwn?
Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

- mynegi barn bersonol ☐
- cyflwyno gwybodaeth ☐
- dangos bod merched yn israddol ☐
- creu pryder ☐

**Darnau Darllen 1-6**

A12. Ystyriwch gynnwys y chwe darn darllen ac ysgrifennwch adroddiad ar rai o'r gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched. [6]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

A13. **Golygu (5marc)**

(i) Dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch yn y frawddeg. [1]

Roedd y tywydd mor _______________ o boeth fel na allai Miriam aros ar y traeth.

- fendigedig ☐
- annioddefol ☐
- gysurus ☐
- afiechyd ☐

(ii) Mae'r frawddeg a ganlyn yn llawer rhy hir. Rhannwch y frawddeg yn dair brawddeg fyrrach. [3]

Pan oedd Eifion Jones yn ifanc fe âi i Ysgol Gwendre lle roedd yn hapus iawn ac yna, pan oedd yn un ar ddeg, aeth i ysgol uwchradd Penlôn gyda chyfeillion o'r un pentref cyn symud ymlaen wedyn i Brifysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg.

Brawddeg 1

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

.

Brawddeg 2

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

.

Brawddeg 3

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(iii) Dewiswch ddau air i lenwi'r bylchau yn y frawddeg a ganlyn. [1]

Enillodd Elin y gystadleuaeth arlunio gyda ___________ o'r _________ dyfnaf yng Nghymru sy'n gartref i bysgod anghyffredin.

llun llin llyn

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40marc)**

Yn yr adran hon fe fyddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

B1.

(i) Cywirwch y berfau yn y brawddegau a ganlyn. [2]

Gwelodd fi gar ddoe.

……………………………………………………………………………………………

Daliais hi bysgodyn anferth ac enillodd y gystadleuaeth.

……………………………………………………………………………………………

Aeth ti i'r parti?

……………………………………………………………………………………………

Cawsant ni lawer o hwyl yn y parc.

……………………………………………………………………………………………

(ii) Nodwch y treigladau cywir yn y blychau. [1]

y + merch =

yn + Cymru =

(iii) Cywirwch y frawddeg a ganlyn: [1]

Roedd pawb yn siarad am fe.

……………………………………………………………………………………………

**[5]**

B2. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350-500 o eiriau. **[35]**

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

**Nail ai**

(a) Rydych chi'n sefyll arholiad pwysig. Disgrifiwch y profiad.

**Neu**

(b) Rydych chi'n meddwl bod yr ysgol yn trin bechgyn a merched yn wahanol. Ysgrifennwch lythyr at y Pennaeth yn esbonio'ch pryderon.

# Cynllun Marcio

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

**Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**2awr**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Bechgyn a Merched'. Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
Defnydd dyddiol o gyfryngau cymdeithasol

A1. Beth yw'r ganran o ferched sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol? (adalw gwybodaeth) [1]

Un marc am nodi:
- 75%

**Darn Darllen 2**
Canlyniadau Cymru 2013

A2. Beth yw'r ddau bwnc lle mae canlyniadau bechgyn yn well na merched? (adalw gwybodaeth)
Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Un marc am nodi:

Ffiseg a Mathemateg ☑

**Darn Darllen 3**
Anaddas i blant?

A3. Pa wobr enillodd Bethan Gwanas y llynedd? (adalw gwybodaeth) [1]

Un marc am nodi:
Gwobr Goffa T.Llew Jones

A4. Nodwch a yw’r datganiadau canlynol yn gywir neu’n anghywir drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [2]
(adalw gwybodaeth a dehongli ystyr)
½ marc yr un am bob ateb cywir

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae Bethan Gwanas yn credu mewn stereoteipio bechgyn a merched. | | ✓ |
| Tywysogesau yw mwyafrif y merched yn llyfrau Bethan Gwanas. | | ✓ |
| Mae Bethan Gwanas wedi ysgrifennu am fachgen sy’n troi’n anifail yn y nos. | ✓ | |
| Roedd pwysau ar Bethan Gwanas i beidio â stereoteipio yn ei nofelau. | | ✓ |

A5. Tanlinellwch yr idiom yn y dyfyniad a ganlyn sy’n dangos nad yw plant a phobl ifanc eisiau darllen mwy am gyffuriau a fampirod. [1]
(dehongli ystyr)
Un marc am nodi:

“Mae fy merched i yn anturus a chlyfar, yn chwarae pêl-droed, yn gallu trin bwa a saeth a dringo coed. Mae'r bechgyn yn amrywio o un llinyn-trônsaidd sy'n datblygu i fod yn ddringwr da, i un sy'n troi'n ddafad pan fydd hi'n nosi.

"Yr unig themâu fydda i'n eu hosgoi yw cyffuriau, gan fod plant a phobl ifanc wedi cael **llond bol** o'r pwnc hwnnw - a fampirod.”

**Darn Darllen 4**
Detholiad o *Ceri Grafu*

A6. Y math o iaith a ddefnyddir yn y detholiad hwn yw:
Rhowch ✓yn y blwch priodol. (adnabod cywair iaith) [1]

Un marc am nodi:

llafar ☑

A7. Beth rydyn ni'n ei ddysgu am Ceri yn y detholiad hwn? Cofiwch gyfeirio at y darn darllen i gefnogi eich sylwadau. (ymateb, dadansoddi a myfyrio/cyflwyno tystiolaeth i gefnogi safbwynt) [5]

Gall yr ymgeiswyr gyfeirio at gynnwys y tabl isod yn ogystal ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

| Ffeithiau | Dehongli |
|---|---|
| Ceri Gruffydd | |
| cael ei galw'n Ceri Grafu | ddim yn hoff o'r enw |
| gwylltio pan sticiodd yr enw | gallu colli ei thymer |
| galw Jason Jones yn grinc | ddim yn hoff o Jason Jones |
| ddim yn hoffi hogia gan nad ydyn nhw'n gadael iddi chwarae pêl-droed | ddim yn hoff o bobl yn dweud wrthi beth i'w wneud |
| credu ei bod yn well na'r bechgyn yn chwarae pêl-droed | hyderus yn ei gallu i chwarae pêl-droed |
| galw'r hogiau'n fabis | bychanu'r bechgyn/ meddwl isel iawn ohonyn nhw/ dim ofn neb arni |
| meddwl nad yw pethau'n deg | swnio fel ei bod yn pwdu'n hawdd/ credu yn ei hawliau |
| dim ond eisiau chwarae pêl-droed a dringo coed | hoff o weithgareddau sy'n draddodiadol i fechgyn/ ddim yn credu mewn stereoteipio |
| ei mam yn rhoi llond pen iddi/ hogia ddim yn gadael iddi chwarae | pawb yn ei herbyn |
| byddai'n hoffi cychwyn tîm merched | penderfynol |
| dweud fod genod yn poeni am gleisio'u coesau a rhwygo'u gwinedd | dychanu genod eraill am fod yn ferchetaidd a dilyn y drefn |
| ei mam wedi trio ei gwisgo fel merch nes bod Ceri'n ddigon hen i wrthod | penderfynol/ styfnig/ gwneud safiad/ dewr/ anystyriol o eraill |
| hapus ar ôl iddi stopio gwisgo sgertiau | penderfynol/ cael ei ffordd ei hun/ cadw'n driw i'w theimladau/ hoff o gael llonydd i wneud beth mae hi eisiau |

**1 marc**
Adalw gwybodaeth uniongyrchol o’r darn darllen gan greu darlun o’r cymeriad/ dangos y gallu i adalw gwybodaeth a dadansoddi ond heb fod mewn manylder.
**2 farc**
Adalw gwybodaeth berthnasol sy’n cynnig darlun manwl o’r cymeriad/ dangos y gallu i ddadansoddi’r cymeriad ond ddim mewn digon o fanylder.
**3-4 marc**
Creu darlun manwl o’r cymeriad drwy gyfeirio at y darn darllen a dadansoddi rhai agweddau.
**5 marc**
Creu darlun cyflawn o’r cymeriad gan gyfeirio’n gyson at y darn darllen a dadansoddi’n aeddfed.

A8. Pam mae Bethan Gwanas wedi ysgrifennu’r nofel yn y person cyntaf yn eich tyb chi ac ydych chi’n meddwl bod hyn yn effeithiol? [3]

(myfyrio ar fwriad yr awdur, gwerthuso arddull a dadansoddi effaith)
Gall yr ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau canlynol ac unrhyw bwyntiau perthnasol eraill:

- clywed gan y cymeriad ei hun
- dod i adnabod y cymeriad yn well
- clywed barn y cymeriad am bethau a phobl eraill
- gallu uniaethu â’r cymeriad
- creu hiwmor
- cyfleu gwrthdaro yn fwy credadwy
- y darllenydd yn teimlo’n agosach at y cymeriad
- gallu defnyddio’r iaith lafar sydd yn ei thro yn ychwanegu at y cymeriadu/ hiwmor/ digwyddiadau

**1 marc**
Nodi’n fras pam mae'r awdur wedi ysgrifennu yn y person cyntaf gan, o bosibl, gyfeirio at y darn darllen.
**2 farc**
Nodi rhesymau amrywiol dros ddewis y person cyntaf a mynegi barn am effeithioldeb gan gyfeirio at y darn darllen.
**3 marc**
Nodi rhesymau amrywiol dros ddewis y person cyntaf gan ddadansoddi’r effaith yn aeddfed a chyfeirio’n bwrpasol at y darn darllen.

**Darn Darllen 5**
Newyddion

A9. Esboniwch, yn eich geiriau eich hun, beth yw pryder y gweinidog addysg. (adalw gwybodaeth ac aralleirio, dehongli er mwyn aralleirio) [2]

Hyd at ddau farc am nodi:

- teganau merched yn gwneud drwg i ferched yn y gweithle
- teganau plant yn cael effaith ar waith yn y dyfodol
- teganau merched ddim yn ennyn diddordeb ym meysydd mathemateg a gwyddoniaeth

**1 marc**
Nodi un pryder yn eu geiriau eu hunain
**2 farc**
Nodi mwy nag un pryder yn eu geiriau eu hunain

Gan fod y cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr nodi'r ateb yn eu geiriau eu hunain, ni wobrwyir marciau am atebion sy'n ailadrodd air am air yr hyn sydd yn y darn darllen. Rhaid profi dealltwriaeth drwy aralleirio.

A10. Ym mha fath o waith y mae'r lleiaf o fwlch rhwng dynion a menywod? [1]
(adalw gwybodaeth)

Un marc am nodi:

- Athrawon ac addysg

A11. Beth yw bwriad yr awdur wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn?
(myfyrio ar fwriad awdur)
Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Un marc am nodi:

cyflwyno gwybodaeth

**Darnau Darllen 1-6**

A12. Ystyriwch gynnwys y chwe darn darllen ac ysgrifennwch adroddiad ar rai o'r gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched. [6]
(cyfuno ac adalw gwybodaeth)

Mae'r dasg hon yn gofyn am gyfuno ac adalw gwybodaeth berthnasol i'r cwestiwn o sawl ffynhonnell a'i chyflwyno ar ffurf adroddiad. Gellir cyfeirio at:

- mwy o ferched na bechgyn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddyddiol
- merched ar y cyfan yn perfformio'n well na bechgyn yn yr arholiadau TGAU
- bechgyn yn well na merched mewn dau bwnc

- tuedd i feddwl bod merched yn hoffi darllen am dywysogesau a bechgyn yn hoffi darllen am geir a gynau ac awduron fel Bethan Gwanas yn cefnu ar hynny
- bechgyn yn meddwl na all merched chwarae pêl-droed
- rhai mamau yn cadw at stereoteip ac yn gwisgo'u merched mewn pinc
- dewis merched o deganau yn gallu effeithio ar eu gyrfa
- 80% o weithwyr ym maes gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg yn ddynion
- 82% y gweithwyr yn y gwasanaethau gofal a hamdden yn ferched
- mwy o ferched mewn swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol, gwerthu a gwasanaeth cwsmer ac yn athrawon neu ym myd addysg
- mwy o ddynion yn grefftwyr ac ym maes gwyddoniaeth, ymchwil a pheirianneg
- y bwlch ar ei leiaf ym maes addysg
- dyfarnwyr gwrywaidd yn gyffredin ond rhai benywaidd yn brin

**1 marc**
Cyfuno ac adalw ychydig o bwyntiau sy'n cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched.
**2 farc**
Cyfuno ac adalw amryw o bwyntiau perthnasol o fwy nag un ffynhonnell.
**3-4 marc**
Cyfuno ac adalw sawl pwynt perthnasol o fwy nag un ffynhonnell a'u cyflwyno'n drefnus.
**5-6 marc**
Cyfuno ac adalw pwyntiau perthnasol niferus o fwy nag un ffynhonnell gan groesgyfeirio'n aeddfed.

A13. **Golygu (5marc)**

(i) Dewiswch y gair cywir i lenwi’r bwlch yn y frawddeg. [1]

Roedd y tywydd mor _______________ o boeth fel na allai Miriam aros ar y traeth.

Un marc am nodi:
annioddefol

(ii) Mae’r frawddeg a ganlyn yn llawer rhy hir. Rhannwch y frawddeg yn dair brawddeg fyrrach. [3]

Pan oedd Eifion Jones yn ifanc fe âi i Ysgol Gwendre lle roedd yn hapus iawn ac yna, pan oedd yn un ar ddeg, aeth i ysgol uwchradd Penlôn gyda chyfeillion o’r un pentref cyn symud ymlaen wedyn i Brifysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg.

Un marc am bob brawddeg hyd at dair sy’n unedau synhwyrol ac sydd yn cadw ystyr y gwreiddiol e.e.

Brawddeg 1
Pan oedd Eifion Jones yn ifanc fe âi i Ysgol Gwendre lle roedd yn hapus iawn.
Brawddeg 2
Yna, pan oedd yn un ar ddeg, aeth i ysgol uwchradd Penlôn gyda chyfeillion o’r un pentref.
Brawddeg 3
Symudodd ymlaen wedyn i Brifysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg.

(iii) Dewiswch ddau air i lenwi’r bylchau yn y frawddeg a ganlyn. [1]

Enillodd Elin y gystadleuaeth arlunio gyda ___________ o’r _________ dyfnaf yng Nghymru sy’n gartref i bysgod anghyffredin.
Hanner marc yr un hyd at un marc am nodi:
llun llyn

## ADRAN B (Ysgrifennu): (40marc)

Yn yr adran hon fe fyddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

B1.

(i) Cywirwch y berfau yn y brawddegau a ganlyn. [2]

Hanner marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

Gwelodd fi gar ddoe.
Gwelais

Daliais hi bysgodyn anferth ac enillodd y gystadleuaeth.
Daliodd

Aeth ti i'r parti?
Est

Cawsant ni lawer o hwyl yn y parc.
Cawsom/ Cawson

(ii) Nodwch y treigladau cywir yn y blychau. [1]
Hanner marc yr un hyd at un marc am nodi:

y + merch = y ferch

yn + Cymru = yng Nghymru

(iii) Cywirwch y frawddeg a ganlyn: [1]
Un marc am:

Roedd pawb yn siarad am fe.

Roedd pawb yn siarad **amdano.**

**[5]**

B2. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350-500 o eiriau. **[35]**

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

**Nail ai**

(a) Rydych chi'n sefyll arholiad pwysig. Disgrifiwch y profiad.

**Neu**

(b) Rydych chi'n meddwl bod yr ysgol yn trin bechgyn a merched yn wahanol. Ysgrifennwch lythyr at y Pennaeth yn esbonio'ch pryderon.

**ADRAN B (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**